

Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel **Marc Wyn Jones**
Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6363
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Papur(au) i'w nodi

(09.30 – 09.35)

2.1 Llythyr gan y Llywydd ar 'Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit'

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Llywydd ar adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

2.2 Ymateb i'r Llywydd ar 'Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit'

(Tudalennau 3 – 5)

Dogfennau atodol:

Ymateb i'r Llywydd

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod



- 4 Papur briffio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru**
(09.35 – 10.00) (Tudalennau 6 – 10)
Dogfennau atodol:
Papur briffio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
- 5 Ymchwiliad i Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael bwyd yn y sector cyhoeddus – Trafodaeth am gasgliadau'r adroddiad drafft byr**
(10.00 – 10.10) (Tudalennau 11 – 14)
Dogfennau atodol:
Adroddiad ar Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael bwyd yn y sector cyhoeddus
- 6 Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru – Trafod yr adroddiad drafft**
(10.10 – 10.20) (Tudalennau 15 – 26)
Dogfennau atodol:
Adroddiad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru
- 7 Ymgynghoriad ar 'Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit' – Trafod ymateb y Pwyllgor**
(10.20 – 10.30) (Tudalennau 27 – 31)
Dogfennau atodol:
Dogfennau ymgynghori

8 Blaenraglen waith y Pwyllgor

(10.30 – 10.35)

(Tudalennau 32 – 35)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen waith – Haf 2018

9 Ymchwiliad i fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd: Cylch Gorchwyl Drafft

(10.35 – 10.45)

(Tudalennau 36 – 39)

Dogfennau atodol:

Cylch Gorchwyl Drafft

Cadeiryddion Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 16eg, 2018

Annwyl Gadeirydd,

Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

Yn dilyn ein trafodaethau yn Fforwm y Cadeiryddion, a thrafodaethau tebyg yn y Pwyllgor Busnes ynglŷn â llwyth gwaith tebygol y Cynulliad o ran Brexit, rwy'n ysgrifennu fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad i ofyn ichi gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio adnoddau a senarios. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ymwneud â gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit, ond mae cyfran sylweddol o adnoddau'r sefydliad yn ymroddedig i'ch Pwyllgorau, ac rwyf am sicrhau ein bod yn cynllunio'n briodol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

Rwy'n gwerthfawrogi bod nifer o Bwyllgorau eisoes wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol ar faterion sy'n ymwneud â Brexit. Er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y cam nesaf o waith craffu, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, gan weithio gyda'ch clerod a thîm integredig o swyddogion, ac mewn ymgynghoriad ag Aelodau eich Pwyllgor, ystyried y papur a gyflwynwyd yn Fforwm y Cadeiryddion (rwyf wedi'i atodi er gwybodaeth – Saesneg yn unig) a rhoi gwybod imi eich safbwynt diweddaraf, yn seiliedig ar yr hyn a wyddom hyd yma, ar y pwyntiau allweddol a ganlyn:

1. I ba raddau y mae Brexit yn debygol o effeithio ar waith eich Pwyllgor, h.y.:

- materion Brexit o fewn eich cylch gorchwyl a fydd naill ai'n amodol ar weithdrefnau'r Cynulliad neu wedi'u nodi fel blaenoriaethau i'w harchwilio gan y Pwyllgor; a
- p'un a yw gwaith Brexit yn debygol o ddisodli ymchwiliadau a gweithgareddau eraill yr oeddech wedi'u cynllunio, neu a oes blaenoriaethau eraill y bydd yn rhaid eu hystyried ochr yn ochr â materion Brexit o ystyried hanfodion eraill (e.e. ymrwymadau i randdeiliaid neu ddeddfwriaeth y Llywodraeth).



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

2. Unrhyw faterion sy'n ymwneud â chapasiti't Aelodau a'r Pwyllgorau y gallwch eu rhagweld, megis amserlennu cyfarfodydd, ac aelodaeth. Gall y Pwyllgor Busnes ystyried aildrefnu amseroedd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn os bydd angen.

Bydd swyddogion y Comisiwn yn ystyried eich barn wrth roi cyngor imi ar adnoddau, yn enwedig p'un a yw'r cyflenwad presennol o staff sy'n cefnogi pob pwyllgor:

- yn debygol o fod yn ddigonol;
- yn annhebygol o fod yn annigonol; neu
- yn gallu cael ei adleoli mewn sefyllfa ddifrifol i gefnogi'r Aelodau wrth ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â Brexit.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y sefyllfa'n symud yn gyflym ac mae cryn dipyn o ansicrwydd. Er hynny, credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn cynnal deialog ac yn cynllunio'n synhwyrol gyda'n gilydd i sicrhau bod y Cynulliad mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r ystod o heriau sy'n ein hwynebu.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 4 Mai.

Rwy'n copio'r llythyr hwn at Reolwyr Busnes a Chomisiynwyr y Cynulliad.

Yn gywir,

Elin Jones AM
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 2

Elin Jones AC
Y Llywydd

18 Ebrill 2018

Annwyl Lywydd

Adnoddau ar gyfer craffu o ran Brexit

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth, lle y gofynnwch i'r Pwyllgor nodi'r graddau y mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o effeithio ar ein gwaith, ac a yw hyn yn creu unrhyw broblemau o ran amserlennu a gallu.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y dull gweithredu a ganlyn o ran materion yn ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd:

Sganio gorwel – Mae'r Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ar Brexit. Mae mewnbwn rheolaidd gan randdeiliaid hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor i nodi meysydd y mae'n dymuno canolbwyntio arnynt.

Blaenoriaethu a ffocws – Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylai ei flaenraglen waith fod yn hyblyg i ymateb i faterion sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys deddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer tymor yr haf sy'n adlewyrchu ei ffocws yn hyn o beth.

Datblygu perthnasoedd – Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu perthynas â Phwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill, i rannu gwybodaeth ac arferion



da. Cyfarfu'r Aelodau â'r Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir ac â Chynullydd y Pwyllgor Economi Gwledig a Chysylltedd yn Senedd yr Alban. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Phwyllgorau tebyg yn San Steffan yn ystod tymor yr haf, yn amodol ar gytundeb gan y Pwyllgor Busnes.

O ran effaith debygol y gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i flaenoriaethu'r materion canlynol yn ystod tymor yr haf:

- Llywodraethu Amgylcheddol – *byddwn yn ystyried llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol a'r angen am gorff diogelu'r amgylchedd domestig.*
- Cynigion ar gyfer fframweithiau'r DU – *byddwn yn ymgymryd â gwaith ar fframweithiau cyffredin y DU a allai fod angen eu sefydlu ar gyfer materion datganoledig sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE.*
- Pysgodfeydd – *byddwn yn ystyried y trefniadau ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol, gyda'r bwriad o lywio ein hystyriaeth o ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar y mater hwn.*

Byddwn hefyd yn ymateb i ymgynghoriad Defra ynghylch polisi a deddfwriaeth amaethyddol yn y dyfodol – "Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit". Mae ein hymateb wedi'i lunio ar sail yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, 'Dyfodol rheoli tir yng Nghymru'.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd y materion hyn yn cael blaenoriaeth dros waith arall a drefnwyd. Mae gweithgareddau eraill wedi cael eu symud, ond gellir eu cynnwys yn ein rhaglen waith heb effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein cylch gorchwyl. Rydym yn hyderus y gellir cyflawni'r gwaith ar Brexit o fewn ein hadnoddau presennol, gan gynnwys o fewn yr amser a neilltuwyd ar gyfer y Pwyllgor ac o ran adnoddau Aelodau a staffio.

Mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth sy'n deillio yn sgîl ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y Bil Amaethyddiaeth a'r Bil



Pysgodfeydd arfaethedig, yn dod o fewn ei gylch gorchwyl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y gweithdrefnau y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyflwyno i alluogi pwyllgorau'r Cynulliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth sy'n deillio yn sgîl Brexit.

Wrth inni gynnal ein gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth, byddwn yn parhau i ddiweddarau ein cydweithwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i sicrhau ein bod yn cynllunio ein gwaith mor effeithiol ag y gallwn. Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y ddau Bwyllgor er gwybodaeth.

Os bydd y sefyllfa'n newid o ran effaith y gwaith hwn ar ein hadnoddau, byddaf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig



Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon